ymddiriedolaeth gofalwyr

gweithredu · cynorthwyo · cynghori

Ymddiriedolwr

Pecyn recriwtio

Neges oddi wrth y Cadeirydd
John McLean, OBE

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb mewn dod yn Ymddiriedolwr sy'n cynrychioli buddiannau Cymru ar Fwrdd y DU o'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr.

Ers dod yn Gadeirydd y llynedd, rydw i wedi cael y braint o ddysgu am ein tîm staff a'n 138 o Bartneriaid Rhwydwaith ledled y DU, ac o ymgysylltu â nhw. Rydw i'n llawn edmygedd i'w hymroddiad a'u brwdfrydedd aruthrol wrth gyflawni ein gweledigaeth, sef gwneud i ofalwyr di-dâl gyfrif a sicrhau bod y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i fyw eu bywydau ar gael iddyn nhw.

Rydym yn cynnig gwasanaethau arbenigol i ofalwyr o bob oedran a chyflwr, gydag amrywiaeth o weithgareddau grŵp a chymorth wedi'u llunio'n benodol ar gyfer unigolion. Rydym yn gwneud hyn yn y DU trwy rwydwaith eang o bartneriaid lleol. Rydym yn gallu darparu grantiau a chynnig cymorth i ofalwyr yn eu cartrefi, ac yn y gymuned ehangach, gan gynnwys gwybodaeth, cymorth emosiynol, help ymarferol a seibiannau y mae cryn angen amdanyn nhw.

Fel y byddwch yn sylweddoli, mae cenhadaeth yr Ymddiriedolaeth yn bellgyrhaeddol. Gyda phoblogaeth gynyddol o fwy na 7 miliwn o ofalwyr di-dâl yn y DU, ac amgylchedd ariannol heriol, rydym wedi dod yn fwy arloesol ein ffordd o weithio, yn fwy chwim ein gweithredu, yn fwy cynhwysol wrth harneisio doniau ein partneriaid ac yn uwch ein cloch wrth eirioli ar ran gofalwyr di-dâl.

Ar ôl adfywio ein bwrdd Ymddiriedolwyr, mae fy nghyd Ymddiriedolwyr a minnau eisiau penodi Ymddiriedolwr Cymreig sydd â'r weledigaeth, yr ymroddiad a'r brwdfrydedd i alluogi'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr i wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau gofalwyr di-dâl. Er mwyn ychwanegu at sgiliau'r Ymddiriedolwyr eraill, rydym yn edrych am rywun sydd â sgiliau a phrofiad ym maes adnoddau dynol ac sydd â gwybodaeth am newid ymddygiadol a diwylliannol.

Mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr ar fin dechrau ar amser cyffrous yn ei datblygiad, a bydd yr Ymddiriedolwr Cymreig newydd yn gallu tynnu ar ein hadnoddau, gan gynnwys:

- Ein Llywydd, Ei Huchelder y Dywysoges Frenhinol sy'n hyrwyddwr gweithgar ar ran yr elusen;
- Ein 138 o Bartneriaid Rhwydwaith sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth i fywydau gofalwyr di-dâl;
- Llywodraeth Cymru, sef prif ariannwr ein gwaith yng Nghymru, lle bo rhoddwyr eraill yn cynnwys Sefydliad Shaw, Sefydliad Waterloo, a'n rhoddwyr a chefnogwyr unigol hael. Rydym hefyd yn cael ein cefnogi trwy ein perthnasoedd corfforaethol sy'n datblygu, gan gynnwys partneriaeth elusennol dwy flynedd â grŵp Jehu;
- Ein tîm staff (58) bendigedig yng Nghaerdydd, Glasgow, Llundain a Rugby;
- Mantolen gref a chronfeydd wrth gefn;
- Cyd-aelodau Bwrdd ymroddedig a Thîm Uwch Reolwyr sy'n dymuno grymuso newid ar gyfer bywydau gofalwyr di-dâl.

Rydw i'n gobeithio bod yr uchod yn rhoi blas ar yr Ymddiriedolaeth a'r cyfle sy'n bodoli i helpu'r nifer sylweddol o ofalwyr di-dâl yn y DU. Os yw'r rôl hon yn eich cyffroi, rydw i'n edrych ymlaen at glywed oddi wrthych gyda'ch cais.

Cofion cynnes,

John McLean OBE, Cadeirydd,
Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Cyd-destun Cymru

Yn cyflawni ar ran gofalwyr Cymru

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yw'r elusen fwyaf blaenllaw ar gyfer cymorth i ofalwyr yng Nghymru, gan weithio mewn partneriaeth â Phartneriaid Rhwydwaith lleol i ddarparu cyngor, gwybodaeth a chymorth yn uniongyrchol i ofalwyr.

Rydym yn byw mewn amseroedd cyffrous ar gyfer gofalwyr yng Nghymru. Mae Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) 2014 yn golygu hawliau newydd i ofalwyr o bob oedran, ond daw nifer o heriau ochr yn ochr â'r dirwedd hon sy'n newid byth a hefyd. Gweledigaeth Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru yw byd lle cydnabyddir rôl a chyfraniad gofalwyr di-dâl o bob oedran, a lle bo'r gwasanaethau cymorth o ansawdd uchel sydd eu hangen arnyn nhw i fyw eu bywydau eu hunain ar gael iddyn nhw. Rydym yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, cyrff statudol eraill gan gynnwys byrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol, a mudiadau'r trydydd sector i wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.

Rydym yn rhedeg rhaglenni cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr a'u problemau, ac yn helpu gweithwyr proffesiynol ym meysydd addysg, iechyd a gwaith cymdeithasol i nodi a chefnogi gofalwyr, yn enwedig gofalwyr ifanc, gofalwyr mewn addysg a gofalwyr pobl â dementia. Gyda ffocws cryf ar gefnogi gofalwyr a gwasanaethau gofalwyr i ddweud eu dweud, rydym yn gweithio i greu llwyfan cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth o'r cyfraniadau rhyfeddol y mae gofalwyr yn eu gwneud ac o bwysigrwydd eu cefnogi'n dda. Rydym yn uchelgeisiol ac yn llwyddiannus ein dulliau o fynd ati i siapio a darparu sail ar gyfer datblygu polisi, canllawiau, deddfwriaeth ac arferion comisiynu.

Mae ein Pwyllgor Cymru ar waith i helpu i siapio a darparu sail ar gyfer ein blaenoriaethau strategol. Rydym wedi dwyn grŵp o unigolion hynod gymwysedig a medrus at ei gilydd sy'n gallu ein helpu i sicrhau bod yr elusen yn cael ei rheoli'n dda ac yn cyflawni deilliannau rhagorol ar gyfer gofalwyr ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys gosod cyfeiriad, monitro perfformiad a chydymffurfio â gofynion statudol a rheoleiddiol.

Mae gofalwyr yn darparu **96%** o'r gofal yn ein cymunedau ledled Cymru

Yn ôl cyfrifiad 2011, Cymru sydd â'r gyfran uchaf o ofalwyr yn y DU ym mhob categori bron iawn – gan gynnwys y gyfran uchaf o ofalwyr hŷn, gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n darparu dros

50 AWR O OFAL YR WYTHNOS

O OFALWYR HŶN yn dweud bod gofalu'n cael effaith andwyol ar eu hiechyd meddwl

Blas ar ein gwaith yng Nghymru

Gweithio gyda'r Llywodraeth

Fel y sefydliad mwyaf blaenllaw ar gyfer gofalwyr a gwasanaethau gofalwyr yng Nghymru, rydym yn cynnal perthynas gref â Llywodraeth Cymru, gan ddarparu sail ar gyfer yr agenda genedlaethol, a'i hyrwyddo.

Rydym yn aelod sefydlol o'r Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr ac rydym yn arwain gwaith datblygu Grŵp Ymgysylltu ac Atebolrwydd cenedlaethol sy'n galluogi gofalwyr i herio'r Llywodraeth yn uniongyrchol, a dylanwadu arni.

Gan ddefnyddio dull trwyadl, wedi'i seilio ar dystiolaeth o weithredu, rydym wedi datblygu amrywiaeth o gyhoeddiadau ac adroddiadau ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru, gan fanylu ar egwyddorion lefel uchel ar gyfer cynllunio, datblygu a chyflenwi'r gwasanaethau a'r offer i gefnogi rhoi'r dulliau hyn o weithredu ar waith.

Rydym yn arwain y gwaith o gyflenwi cynllun cardiau ID cenedlaethol blaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Ifanc yng Nghymru. Er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus, rydym yn dwyn awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, cyrff proffesiynol a gwasanaethau gofalwyr at ei gilydd i rannu protocolau a chanllawiau cyffredin.

Yn dylanwadu ar newid ac yn gwrando ar leisiau gofalwyr

Rydym wedi cyfrannu'n helaeth at sefydlu ymchwiliad cenedlaethol i'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr y bu Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n ei gwblhau.

Er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, rydym wedi dwyn amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys gofalwyr, at ei gilydd i gyflenwi cyd-dystiolaeth bwerus. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad preifat gyda'r Pwyllgor ar gyfer gofalwyr ifanc a'r cyfle i 3 o ofalwyr ifanc gymryd rhan mewn sesiwn dystiolaeth ffurfiol.

Mae ein Cyngor Ieuenctid cenedlaethol bywiog wedi lansio'u hymgyrch eu hunain, sef #SupportNotSympathy, sydd wedi ennill cefnogaeth Aelodau'r Cynulliad a phobl allweddol eraill.

Rydym wedi ein penodi fel sefydliad sy'n bartner â Senedd Ieuenctid Cymru, gan alluogi dau aelod o'r Cyngor Ieuenctid i fod yn aelodau sy'n rhannu eu hymgyrch ar lwyfan cenedlaethol.

Addysg

Rydym yn gweithio'n agos â'r Adran Addysg i wella profiadau a deilliannau gofalwyr mewn addysg. Rydym yn cyflawni yn erbyn yr argymhellion yn adolygiad thematig Estyn, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, trwy weithio gyda chonsortia addysg i gyflenwi adnoddau arloesol yn y sector er mwyn cefnogi ysgolion a cholegau i nodi a chefnogi mwy o ofalwyr ifanc.

Gwnaethom gyflwyno ein rhaglen Mynd yn Uwch i brifysgolion yng Nghymru, ac yn sgil hyn gwnaeth pob un ohonyn nhw fabwysiadu polisïau cyfeillgar i ofalwyr. Trwy weithio mewn partneriaeth fel hyn, rydym wedi gwesteio cynadleddau cenedlaethol ar ofalwyr mewn addysg, gan ddenu siaradwyr yn cynnwys academyddion sydd wedi'u cydnabod yn rhyngwladol, Comisiynydd Plant Cymru ac Estyn. Rydym hefyd wedi datblygu pecyn cymorth i gefnogi colegau yng Nghymru i sicrhau bod mwy o ofalwyr yn gallu mwynhau'r coleg a llwyddo ynddo.

Triongl Gofal i bobl â dementia

Rydym wedi cyhoeddi adnoddau i gefnogi gofalwyr pobl â dementia, gan gynnwys cyhoeddiad dwyieithog Triongl Gofal sy'n canolbwyntio'n benodol ar ofalwyr pobl â dementia. Eleni, fe fyddwn yn lansio llyfryn cyngor i ofalwyr pobl â dementia, yn cynnal digwyddiadau gwrando gyda gofalwyr pobl â dementia ac yn hwyluso cyfarfodydd amlddisgyblaeth i glywed oddi wrth weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes hwn, a'u cefnogi.

Codi arian

Rydym yn gweithio'n galed i godi'r cronfeydd sydd eu hangen arnom i fodoli gydag amrywiaeth eang o bartneriaid ledled Cymru. Mae ein Partneriaeth Elusennol bresennol â chwmni adeiladu Jehu yn darparu cronfeydd y mae cryn angen amdanyn nhw i gefnogi ein gwaith – ond mae hefyd yn datblygu cyngor a gwybodaeth ystyrlon ar gyfer staff a chontractwyr Jehu ynglŷn â chefnogi gofalwyr yn eu cymunedau.

Manyleb y person

Rydym yn edrych am:

- Rywun sydd â dealltwriaeth o'n hachos ac empathi ag ef. Efallai eich bod yn ofalwr, neu'ch bod wedi bod yn ofalwr ar ryw adeg yn eich bywyd.
- Rhywun sy'n gallu chwarae rhan allweddol yn nhwf a llwyddiant parhaus yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr
- Rhywun sy'n gallu ymrwymo i ryw 15 diwrnod y flwyddyn i fynychu cyfarfodydd yn Llundain a Chymru, diwrnodau cwrdd i ffwrdd, ac ymweliadau â'r Partneriaid Rhwydwaith.
- Rhywun sy'n gallu dod â sgiliau sy'n ategol at sgiliau aelodau eraill o'n Bwrdd. Rydym yn edrych am weithiwr proffesiynol â phrofiad o adnoddau dynol, a sgiliau yn y maes, gan gynnwys dealltwriaeth o newid ymddygiadol a diwylliannol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn hanfodol ac fe fyddem yn ystyried ymgeiswyr o gefndiroedd eraill.
- Rhywun sydd â dealltwriaeth o'r heriau penodol sy'n wynebu gofalwyr a gwasanaethau gofalwyr yng Nghymru sydd, yn ddelfrydol, yn cynnwys gwybodaeth am y dirwedd ddeddfwriaethol a chomisiynu.
- Yn ddelfrydol, rhywun sydd â phrofiad blaenorol o lywodraethu yn y trydydd sector, neu sydd â phrofiad o fod yn aelod o Fwrdd mewn sector arall.

Sut i ymgeisio

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am y cyfle cyffrous hwn, yna cysylltwch ag Alexandra Nita ar 0300 772 9702 neu yn anita@carers.org.

Dylid anfon ceisiadau trwy e-bost i wales@carers.org ac mae'n rhaid eu derbyn erbyn **12 o'r gloch canol dydd ar 10 Rhagfyr 2019**.

Dylai'ch cais gynnwys CV a llythyr esboniadol (dwy dudalen A4 ar y mwyaf), yn esbonio pam fod y swydd hon o ddiddordeb i chi.

Os hoffech drafod y cyfle hwn ymhellach, yna cysylltwch â Simon Hatch, Cyfarwyddwr Cymru yn shatch@carers.org neu John McLean, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr – gellir cysylltu ag ef trwy Alex Nita ar 0300 772 9702.

Cynhelir cyfweliadau'r cyfnod cyntaf yng **Nghaerdydd ar 18 Rhagfyr**.

Cynhelir cyfweliadau'r ail gyfnod yn Llundain.

ymddiriedolaeth gofalwyr

gweithredu · cynorthwyo · cynghori

Mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (1145181) ac yn yr Alban (SC042870).

Cofrestrwyd fel cwmni cyfyngedig drwy warant yn Lloegr a Chymru rhif 7697170. Swyddfa gofrestredig: Uned 101, 168-180 Stryd Union, Llundain SE1 0LH.

© Ymddiriedolaeth Gofalwyr 2019. Modelau sydd ym mhob un o'r ffotograffau llyfrgell. Mae ffotograff a hunaniaeth pob gofalwr wedi'u newid er mwyn diogelu eu preifatrwydd.

Registered with FUNDRAISING REGULATOR